

Cystadleuaeth 75

Tri Thriban

- 1 AirBnB sef Arwel Emlyn, Rhuthun
2. Chwilgorn y Gwynt sef Melinda Price, Croesoswallt
3. Menna Lili – John Meurig Edwards, Aberhonddu

75. Tri Thriban Glyndŵr

Diarwydd ydyw Sycharth
Yng ngesail y Canolbarth,
Ac er fod mawredd i'r hen le
Mae'n safle pell a diarth.

Yng Nghymru a Machynlleth
Addysgwn bron iawn bopeth
Heb sôn am Senedd hyna'n tir,
Yn dydi'r byd 'ma'n benbleth!

Fe yrrodd ef Rhys Gethin
At dai haf, hen dai'r werin,
Llosgodd hwy, ond Air BnB
Sy'n llenwi'r hen gynefin.

Ffugenw: Air BnB

